**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/463/21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd CF99 1SN

21 Ionawr 2021

Annwyl Llyr,

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 16 Rhagfyr, cytunais i anfon gwybodaeth ychwanegol at y Pwyllgor ynghylch cyfalaf trafodiadau ariannol a symiau canlyniadol fformiwla Barnett Cymru.

Cyfalaf trafodiadau ariannol
Roedd y cais yn ymwneud â rhestr gwariant y cyfalaf trafodiadau ariannol eleni, a beth rydym yn bwriadu ei wario'r flwyddyn nesaf. Gan nad yw blwyddyn ariannol 2020-21 eto wedi dod i ben, rwyf wedi atodi dadansoddiad o'r dyraniadau o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol bresennol hyd yma (Atodiad 1). Caiff unrhyw ddyraniadau pellach eu hadlewyrchu yn y drydedd Gyllideb Atodol.

Cafodd ein cynlluniau ar gyfer gwariant y flwyddyn nesaf eu hamlinellu yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Roedd hyn yn cynnwys dyraniadau trafodiadau ariannol newydd o gyfanswm o £114.3m. Rwyf wedi cynnwys dyraniadau 2021-22 yn y tabl er hwylustod.

Symiau canlyniadol fformiwla Barnett Cymru
Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o'r symiau canlyniadol a dderbyniom yng Nghylch Gwario 2021-22.

Rwy'n gosod copi o'r llythyr hwn yn llyfrgell Senedd Cymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol 2020-21 a 2021-22**[1]

| **Prosiect/Rhaglen** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** |
|---|---|---|
| **Cymorth i Brynu - Cymru** – Helpu prynwyr tai cymwys i brynu cartref wedi'i adeiladu o'r newydd gyda morgais benthyciad isel mewn cymhariaeth â gwerth a rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu. | 67 | 74 |
| **Banc Datblygu Cymru** – Cronfeydd buddsoddi i alluogi BBaCh i gael mynediad at gyllid, cefnogi twf busnesau, hybu allforion a chreu/diogelu swyddi. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer twristiaeth, achub ac ailstrwythuro, busnesau micro, Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion, eiddo masnachol, buddsoddi hyblyg, gwyddorau bywyd etc. | 47 | 5 |
| **Y Cynllun Tir ar gyfer Tai** – Darparu benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gaffael safleoedd er mwyn cyflymu datblygiad cynlluniau tai fforddiadwy. | 10 | |
| **Mentrau Datblygu Economaidd** – Cyllid sy'n cefnogi twf economaidd yng Nghymru | 42 | |
| **Cronfeydd Datblygu Eiddo a'r sector Eiddo** – Yn helpu i adeiladu cartrefi newydd, mannau masnachol a diwydiannol. | 2 | |
| **Maes Awyr Caerdydd a Hedfanaeth** – Cynyddu potensial masnachol y diwydiant hedfan yng Nghymru a gwella datblygiad llwybrau hedfan. | 5 | 3 |
| **Tai a benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** – Helpu i wireddu'r ymrwymiad i sicrhau 20,000 o gartrefi a darpariaeth tai gan gynnwys datblygiadau arloesol newydd. | 64 | |
| **Twf Gwyrdd Cymru a Seilwaith Gwyrdd** – Cefnogi sector ynni adnewyddadwy Cymru a chynyddu a chyflymu prosiectau i sicrhau buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. | 2 | |
| **Benthyciadau Canol Trefi a Chronfeydd Adfywio** - Helpu i ddarparu dyfodol cynaliadwy i safleoedd ac eiddo gwag neu sy'n cael eu tanddefnyddio, ac wrth wneud hynny, helpu i gael canol trefi sy'n fywiog ac yn hyfyw. | 10 | 5 |
| **Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol** | 1 | 1 |
| **Newid i Gerbydau Trydan** | 8 | 10 |
| **Undebau Credyd** - Benthyciadau isradd i sicrhau cydymffurfiad â chymarebau cyfalaf i asedau gofynnol | | 1 |
| **Benthyciadau diogelwch adeiladau** i helpu i gadw a gwella ansawdd y stoc dai yng Nghymru a galluogi preswylwyr, lesddeiliaid a thenantiaid i deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi. | | 12 |
| **Addysg** i helpu i gyflwyno'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol | | 3 |

[1] Gwneir dyraniadau pellach yn y drydedd Cyllideb Atodol 2020-21. Caiff ffigurau eu talgrynnu i'r miliwn agosaf, yn unol â'r wybodaeth fonitro ddiweddaraf sydd ar gael, ac nid ydynt yn cynnwys ad-daliadau sy'n ddyledus i'r gronfa ganolog.

**Atodiad 2**

**Symiau canlyniadol fformiwla Barnett Cymru, Cylch Gwario 2021-22 (£miliwn)**

| | |
|---|---|
| **<u>Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Cyllidol</u>** | |
| **Ddim yn gysylltiedig â COVID-19** | |
| Iechyd | 422.9 |
| Addysg | 162.2 |
| Llywodraeth Leol | 65.1 |
| Cyllid a Thollau EM | 1.9 |
| Trafnidiaeth | 12.1 |
| Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol | -0.2 |
| Cymunedau | 11.6 |
| Yr Amgylchedd a Materion Gwledig | 14.1 |
| Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | -2.6 |
| Incwm Ardrethi Busnes | 7.0 |
| **Cyfanswm heb fod yn gysylltiedig â COVID-19** | **694.2** |
| **COVID-19** | |
| Iechyd | 435.4 |
| Addysg | 23.3 |
| Llywodraeth Leol | 175.4 |
| Trafnidiaeth | 121.0 |
| Cymunedau | 10.1 |
| Gwaith a phensiynau | 0.8 |
| **Cyfanswm COVID-19** | **765.9** |
| **<u>Cyfanswm DEL Adnoddau Cyllidol</u>** | **<u>1,460.1</u>** |
| **<u>Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf</u>** | |
| **Cyfalaf cyffredinol** | |
| Iechyd | 65.5 |
| Addysg | 74.7 |
| Cymunedau | -131.9 |
| Cyllid a Thollau EM | 0.5 |
| Trafnidiaeth | 15.0 |
| Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol | 3.7 |
| Yr Amgylchedd a Materion Gwledig | 27.0 |
| Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | 5.4 |
| **Cyfanswm cyfalaf cyffredinol** | **59.7** |
| **Cyfalaf trafodiadau ariannol** | |
| Addysg | 1.1 |
| Cymunedau | -193.8 |
| Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol | 1.5 |
| Yr Amgylchedd a Materion Gwledig | -0.1 |
| **Cyfanswm trafodiadau ariannol** | **-191.3** |
| **<u>Cyfanswm DEL cyfalaf</u>** | **<u>-131.6</u>** |